**Canllawiau ar gyfer grwpiau ac ysgolion sy'n ymweld**

Cyfrifoldeb yr athrawon a'r oedolion sydd gyda'r grŵp yw ymddygiad pob disgybl sy'n ymweld ag Amgueddfa Cymru. Mae gwybodaeth ac adnoddau ar ein gwefan. Rhannwch eich cynllun ar gyfer yr ymweliad gyda phob oedolyn sy'n dod fel y gallan nhw gynorthwyo eich disgyblion yn well.

Gofynnir bod disgyblion o dan 16 oed yn cael eu goruchwylio trwy gydol eu hymweliad a bod pob grŵp addysg yn dilyn isafswm y cyfraddau staff/disgyblion canlynol:

- Dosbarth Derbyn - Blwyddyn 2 (rhwng 3 a 7 oed): 1 oedolyn cyfrifol: 6 plentyn
- Blynyddoedd 3 - 6 (rhwng 7 a 11 oed): 1 oedolyn cyfrifol: 10-15 plentyn
- Blwyddyn 7 ymlaen (11+ oed): 1 oedolyn cyfrifol: 15-20 plentyn

Dylai arweinwyr y grŵp asesu'r risgiau ac ystyried lefel goruchwylio diogel sy'n addas ar gyfer ei grŵp.

**Er mwyn sicrhau bod pawb yn cael ymweliad diogel ac yn mwynhau, gofynnwn i bob grŵp:**

- Cyrraedd yr Amgueddfa neu'r gweithdy ar yr amser cywir a neilltuwyd - bydd y neges cadarnhau archeb yn cynnwys yr wybodaeth hon.
- Gwrando a dilyn cyfarwyddiadau.
- Trin staff, gwirfoddolwyr, ac ymwelwyr eraill gyda pharch.
- Peidio â defnyddio iaith ddifrïol, fygythiol ac/neu iaith neu ymddygiad amharchus.

- Gadael unrhyw ofod rydych chi'n eu defnyddio fel y byddech chi'n dymuno eu gweld wrth gyrraedd.
- Os ydych chi'n defnyddio'r ystafell frechdanau, ewch â'ch sbwriel gyda chi.
- Gadael cotiau a bagiau yn y cyfleusterau sydd ar gael.
- Parchu'r arddangosfeydd; mae hyn yn golygu peidio cyffwrdd sbesimenau, gwrthrychau neu waith celf.
- Peidio â bwyta neu yfed tu fewn i'r orielau.
- Adrodd unrhyw bryderon i aelod o staff yr Amgueddfa.

Mae gan ein staff bob hawl i stopio'r gweithdy neu ofyn i grŵp adael os nad ydyn nhw ac/neu adnoddau ein hamgueddfa yn cael eu trin gyda pharch.

Mae gwybodaeth iechyd a diogelwch ar gael fan hyn.
Mae gwybodaeth hygyrchedd ar gael fan hyn.